

DYFODOL  
I'R IAITH

# DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

24<sup>ain</sup> Ebrill 2024

(see below for English)

## DYFODOL I'R IAITH – ERGYD BELLACH I DDATBLYGIAD ADDYSG GYMRAEG

Mae Dyfodol i'r iaith yn arswydo bod cwrs ôl-radd i hyfforddi athrawon yn dod i ben ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Meddai Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r iaith, "bydd dod â'r cwrs hyfforddi athrawon i ben yn siŵr o effeithio'n negyddol ar nifer y myfyrwyr sy'n dymuno bod yn athrawon fyddai'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hi eisoes yn argyfwng o ran diffyg athrawon a bydd y cyhoeddiad yma yn siŵr o waethygu'r sefyllfa fwyfwy.

"Mae Cymru eisoes yn colli hanner a rhagor o'i myfyrwyr i Brifysgolion Lloegr a thu hwnt. Mae hyn yn ergyd bellach fydd yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd i ddatblygu addysg Gymraeg.

"Mae'n glir i ni bod anallu'r Brifysgol i gynnal y cwrs yn deillio o amharodrwydd Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i addysgu yng Nghymru, tra yn gwario dros hanner biliwn o bunnau ar gyllido myfyrwyr Cymru ym Mhrifysgolion y tu hwnt i Gymru. O dan bolisi'r Llywodraeth, caiff ein myfyrwyr eu hariannu i adael eu gwlad yn hytrach na manteisio ar Brifysgolion Cymru. Gyda mwy yn dewis gadael, bydd ein sefydliadau yn parhau i weld dirywiad pellach."

"Rydym wedi ysgrifennu at Lynne Neagle, Ysgrifennydd Addysg a Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Gymraeg yn gofyn iddynt adolygu'r polisi cyllido presennol a dechrau rhoi manteision i fyfyrwyr Cymru astudio yn eu gwlad eu hunain, fel sy'n digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dyna'r ffordd fwyaf effeithiol hefyd o gefnogi ein Brifysgolion sy'n wynebu heriau digynsail a hirdymor oni welwn ni dro pedol gan ein Llywodraeth.

"Fel ag y mae hi byddwn yn clywed am lawer mwy o doriadau mewn darpariaeth academaidd a swyddi. Ar y llaw arall nid oes unrhyw gap ar wariant Llywodraeth Cymru ar addysg uwch y tu allan i Gymru sydd wedi codi 60% dros y 5 mlynedd olaf. Ai dyma "Cymru sy'n llawn gobaith, uchelgais ac undod" y soniodd Vaughan Gething yn ei arraith fel Prif Weinidog newydd Cymru yn ddiweddar?

- DIWEDD -

Am fanylion pellach cysylltwch â Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r iaith ar 07989393445 neu [dylanbryn@dyfodol.net](mailto:dylanbryn@dyfodol.net) neu Heini Gruffudd, Cadeirydd, 01792 455410, 07983 506805, [heini@gruffudd.org](mailto:heini@gruffudd.org)

### Dyfodol i'r iaith

- Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

# DATGANIAD NEWYDDION / NEWS RELEASE

24<sup>th</sup> April 2024

DYFODOL  
i'r  
LAITH

## DYFODOL I'R IAITH – A FURTHER BLOW TO THE DEVELOPMENT OF WELSH LANGUAGE EDUCATION

Dyfodol i'r laith is appalled that a postgraduate course to train teachers is coming to an end at Aberystwyth University.

Dylan Bryn Roberts, Chief Executive of Dyfodol i'r laith, said: "ending the teacher training course will undoubtedly negatively affect the number of students who wish to become teachers who can teach through the medium of Welsh. There is already a crisis of teacher shortages, and this announcement will surely make the situation increasingly worse."

"Wales is already losing more than half of its students to English Universities and beyond. This is a further blow that will make it increasingly difficult to develop Welsh language education.

"It is clear to us that Aberystwyth University's inability to run the course stems from the Welsh Government's reluctance to prioritise education in Wales, while spending over half a billion pounds on funding Welsh students at Universities beyond Wales. Under Government policy, our students are encouraged to leave their country rather than take advantage of Welsh Universities. With more choosing to leave, our organisations will continue to see further decline."

"We have written to Lynne Neagle, Education Secretary and Jeremy Miles, Welsh Language Secretary asking them to review the existing funding policy and start giving Welsh students the benefits of studying in their own country, as is the case in Scotland and Northern Ireland. That is also the most effective way to support our Universities which are facing unprecedented and long-term challenges unless we see a U-turn by our Government.

"As it stands, we will be hearing about many more cuts in academic provision and jobs. On the other hand, there is no cap on Welsh Government spending on higher education outside Wales which has risen by 60% over the last 5 years. Is this "a Wales full of hope, ambition and unity" that Vaughan Gething mentioned in his speech as the new First Minister of Wales recently?

- ENDS -

**For further information please contact Dylan Bryn Roberts, Chief Executive, Dyfodol i'r laith on 07989393445 or [dylanbryn@dyfodol.net](mailto:dylanbryn@dyfodol.net) or Heini Gruffudd, Chair, 01792 455410, 07983 506805, [heini@gruffudd.org](mailto:heini@gruffudd.org)**

### Dyfodol i'r laith

- Dyfodol i'r laith (A Future for the Language) is a non-political organisation that works for the promotion of the Welsh language.
- Its aim is to exert influence through constitutional means on the substance and content of public policies and legislation in order to promote and nurture the growth of the Welsh language.